
## Gwneud eich casgliad eich hun

Gall casgliad amgueddfa gynnwys pob math o bethau. Gall ymwneud â dyfeisiau neu erddi, teganau neu hanes, esgidiau, lliw, lle arbennig - unrhyw beth!





Gall casgliadau gynnwys pethau a fydd yn para, fel ffosil neu bethau a fydd yn pylu fel cadwyn llygaid y dydd. Gallant fod yn ddifrifol neu-'n ddoniol. Yn aml bydd gan gasgliadau thema ac yn aml byddant yn adrodd stori.



## Gwneud eich arddangosfa'ch hun

Oes gennych gasgliad neu stori i'w hadrodd? Gallwch wneud eich amgueddfa eich hun mewn blwch neu arddangos eich gwrthrychau ar fwrdd neu fan addas arall. Dewiswch eich thema a cheisiwch weld a allwch gysylltu'r gwrthrychau ynghyd mewn ffordd ddiddorol.

Efallai eich bod bob amser wedi casglu pethau am ei fod yn hwyl. Meddyliwch am sut gallech eu harddangos yn eich amgueddfa eich hun a meddyliwch am beth allech chi ei ddweud am y gwrthrychau i adrodd eu hanes. Cofiwch roi enw i'ch arddangosfa.

## Sut i wneud eich arddangosfa eich hun

Mae'n syniad da arddangos y gwrthrychau mewn ffordd sy'n eu dangos ar eu gorau, efallai ar stand uchel neu efallai gallech wneud llun o'r gwrthrych neu dynnu ffotograff ohono'n lle.

Efallai y gallech ysgrifennu rhywbeth am bob gwrthrych hefyd fel y gellir adrodd ei stori.

Thema'r arddangosfa hon yw Gwneud ac mae pob gwrthrych yn rhywbeth gwerthfawr iawn.




Mae'r arddangosfa hon mewn blwch esgidiau'n cynnwys: whil-ber, rhywbeth a wnaed ar gyfer Blue Peter, prosiectau ysgol, Smot y Ci a'i Ffrindiau a cherigos wedi'u paentio.

Dyma arddangosfa ar gyfer **Mesur Gartref**. Cesglais i'r holl bethau roeddwn i'n gallu dod o hyd iddyn nhw a oedd yn addas ar gyfer fy thema. Gallwn i fod wedi cynnwys pethau eraill hefyd, fel brics tegan.




## Gweithgareddau sy'n cyd-fynd a'r arddangosfa hon:

Sawl bric tegan yw uchder tedi? Neu, beth yw uchder cadair mewn dwylo?

Cymerwch gip ar yr holl wrthrychau hyn. Ceisiwch weld a allwch chi weithio allan pa rai sy'n mesur amser.

Beth rydych chi'n meddwl yw'r gwrthrych hynaf? Ydych chi'n gallu dweud pam?

## Y camau eto:

Casglwch rai pethau sydd o ddiddordeb i chi. **Dyma'ch casgliad chi**

Unwaith eich bod wedi casglu grŵp o wrthrychau, meddyliwch lle gallech chi eu harddangos - dewch o hyd i fwrdd neu sil ffenestr, neu defnyddiwch flwch cardbord neu le addas arall. **Dyma'ch amgueddfa.**

Pan fyddwch chi wedi dod o hyd i'ch lle, meddyliwch am sut byddwch yn arddangos eich gwrthrychau fel eu bod yn cael eu dangos ar eu gorau ac yn gallu dangos thema neu stori ddiddorol. **Dyma'ch arddangosfa**

Pan fydd eich arddangosfa'n barod, meddyliwch am sut gallai eich ffrindiau, eich teulu neu ymwelwyr ei mwynhau'n fwy. Efallai y gallech ofyn cwestiynau iddyn nhw neu wneud lluniau amdani. **Dyma'ch gweithgareddau**

**Yn bwysicaf, mwynhewch; eich casgliad chi ydyw a'ch arddangosfa chi.**